


Cam-drin Cyfoedion yn Rhywiol



Beth yw Cam-drin Cyfoedion yn Rhywiol

Mae'n normal i blant ddangos ystod o ymddygiad rhywiol wrth iddynt dyfu i fyny, ond weithiau mae eu hymddygiad yn gallu bod yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill. Mae plant a phobl eraill yn cyflawni tua trydedd rhan o gam-drin rhywiol. Rydym yn galw hyn yn gam-drin cyfoedion yn rhywiol.

Mae cam-drin cyfoedion yn rhywiol yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i: *gam-drin corfforol a rhywiol / aflonyddu rhywiol a thrais / niwed emosiynol / bwlio ar ac oddi ar lein / cam-drin perthynas yn ei ardddegau.*

Cyd-destun

Mae cam-drin cyfoedion yn rhywiol yn gallu digwydd mewn ystod o leoliadau, gan gynnwys: yn yr ysgol / yn y cartref / mewn mannau cyhoeddus/ mewn partïon / yn nhŷ ffrind / ar-lein.

Mae'n gallu digwydd mewn mannau sy'n cael eu goruchwyllo neu ddim yn cael eu goruchwyllo. O fewn cyd-destun ysgol, er enghraifft, mae cam-drin rhwng cyfoedion yn gallu digwydd mewn mannau fel toiledau, y cae chwarae ac ardaloedd awyr agored, coridorau a ble mae plant yn teithio nôl ac ymlaen o'r ysgol.

Dylid cydnabod bod yr ymddygiad dan sylw yn niweidiol i'r cyflawnwr (sy'n blentyn) a'r dioddefwr. Gall ymddygiad fod yn agos neu ddim yn agos.

Pam ei fod yn bwysig?

Mae pobl ifanc yn gallu bod yn ddryslyd pa un a ydynt wedi profi cam-drin rhywiol gan gyfoedion. Mae'r rhesymau am hyn yn cynnwys:

Dryswch am beth sy'n cael ei ystyried yn weithgaredd rhywiol 'normal' / nid ydynt yn gwybod os ydynt wedi rhoi cydsyniad (DS nid yw unrhyw un yn gallu cydsynio cael eu cam-drin) / roeddent yn defnyddio sylweddau pan ddigwyddodd y cam-drin / digwyddodd y cam-drin gan ffrind neu bartner / digwyddodd y cam-drin ar-lein; ac/neu maent yn beio eu hunain am beth ddigwyddodd.

Nid yw rhieni a gweithwyr proffesiynol bob amser yn gwybod y ffordd fwyaf addas i ymateb i blant sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol ac/neu sydd wedi cael profiad o gyfoedion yn cam-drin yn rhywiol.

Beth yw'r effaith?

Mae profiad o gyfoedion yn cam-drin yn rhywiol yn gallu cael effaith negyddol hirdymor ar les plentyn sy'n gallu parhau nes bydd yn oedolyn. Gall effeithiau gynnwys:

- materion iechyd meddwl – fel anhwylder straen wedi trawma (PTSD), gorbryder, diffyg hunanhyder, iselder, hunan-niweidio
- ymddygiad heriol – fel camddefnyddio sylweddau, ymddygiad rhywiol, troseddau
- problemau perthynas – er enghraifft materion agosrwydd, perthnasoedd ansefydlog, methu ffurfio neu gynnal cyfeillgarwch

Adnabod yr arwyddion a'r symptomau

- absenoldeb o'r ysgol neu ymddieithrio o weithgareddau'r ysgol

- anafiadau corfforol / meddyliol neu faterion iechyd emosiynol
- wedi encilio – diffyg hunanhyder / diffyg cwsg / camddefnyddio sylweddau neu alcohol
- newidiadau mewn ymddygiad / ymddygiad amhriodol i oed / camdriniol tuag at eraill

Fel gyda holl faterion diogelu, mae cam-drin cyfoed ar gyfoed yn gallu effeithio ar blant a phobl ifanc heb y nodweddion hyn.

Beth ddylech chi ei wneud?

Mae'n bwysig bod oedolion sy'n gweithio gyda phlant yn gallu nodi os yw unrhyw ymddygiad rhywiol yn niweidiol neu'n ymosodol, ac ymateb yn briodol i gadw'r holl blant sy'n cymryd rhan yn ddiogel.

Mae hyn hefyd yn cynnwys sut i fod yn rhagweithiol yn:

- Ymateb i ddatgeliad neu bryder a godwyd
- Dechrau trafodaeth gyda'ch arweinydd diogelu
- Cymryd camau ar unwaith
- Atgyfeirio pan bo'n briodol (i'r dioddefwr a hefyd y cyflawnwr a all fod yn blentyn sydd angen gofal a chefnogaeth)

Darllen pellach:

- Canllawiau ymarfer ar Ymddygiad Rhywiol Niweidiol – Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- Canllawiau i leoliadau addysg ar gyfoedion yn cam-drin yn rhywiol, cam-fanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol
- Cyngor yr Adran Addysg: Trais rhywiol ac aflonyddu rhywiol rhwng plant mewn ysgolion a cholegau – Gov.UK www.gov.uk